



SIARTER DIOGELWCH YN GYNTAF

Tenantiaid yw rhanddeiliaid mwyaf Newydd ac maen nhw'n chwarae rhan bwysig wrth lunio'r gwasanaethau a ddarperir. Mae Newydd yn ystyried iechyd a diogelwch tenantiaid i fod yn bwysig, ac mae'r gymdeithas yn gweld hyn fel cyfrifoldeb a rennir.

Datblygwyd yr ymrwymiadau yn y siarter hon mewn cydweithrediad â thenantiaid ac yn unol â'r ddogfen Diogelwch yn Gyntaf mewn Tai (Safety First in Housing: Our shared responsibilities with residents) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru ym mis Mehefin 2020.

BYDD NEWYDD, Y LANDLORD YN:

- Sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth iechyd a diogelwch perthnasol a dealladwy am eich cartref i chi.
- Ei gwneud hi'n hawdd i chi gael gafael ar wybodaeth bellach am eich eiddo os ydych chi eisiau, a bod y wybodaeth mewn fformat hygyrch sy'n addas i chi.
- Byddwn yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i chi fel y byddwch yn medru deall unrhyw wybodaeth neu nodweddion diogelwch sy'n gysylltiedig â'ch eiddo.
- Ei gwneud hi'n hawdd i chi gyflwyno pryderon a chwynion, a gwybod y byddwn yn delio gyda materion o'r fath mewn ffordd addas a phroffesiynol.
- Creu diwylliant lle mae gan y staff yr awdurdod i gymryd camau lle bo hynny'n addas, fel y gellir datrys eich pryderon neu gwynion yn gyflym.
- Darparu cartref diogel a gedwir mewn cyflwr da. Byddwn yn cadw adeiladwaith ac ochr allanol yr eiddo, yr holl wasanaethau (dŵr, trydan, nwy) ac unrhyw offer a dodrefn yr ydym wedi'u darparu mewn cyflwr gweithio a sicrhau bod gennych gyfleusterau sylfaenol fel gwresogi a dŵr poeth. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein cartrefi yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS).
- Cwblhau gwaith atgyweirio o fewn amser rhesymol. Mae angen gwneud rhai atgyweiriadau ar frys a byddwn yn delio gyda'r rhain yn gyflym, e.e. nwy yn gollwng, tra bod llai o frys i wneud atgyweiriadau eraill a bydd y rhain yn cymryd hirach, e.e. drôr wedi torri.
- Trefnu gwiriad diogelwch nwy blynyddol. Mae hyn yn ofyniad iechyd & diogelwch cyfreithiol. Byddwch yn derbyn copi o'r dystysgrif nwy a gwblheir gan beiriannydd Diogelwch Nwy, sy'n dangos bod y prawf wedi'i gwblhau.
- Lle bo gofyn i ni gynnal Asesiadau Risgiau Tân, byddwn yn nodi risgiau a pheryglon tân, ac yn cymryd camau priodol ac yn trefnu bod yr asesiadau ar gael i holl denantiaid, preswylwyr a lesddeiliaid.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y siarter hon, neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

- Rhoi cyfnod rhybudd rhesymol o unrhyw ymweliadau sydd eu hangen. O dan y gyfraith, mae gennych chi'r hawl i fwynhau eich cartref mewn preifatrwydd. Mae hyn yn golygu na fedrwn ni gerdded i mewn pan fynwn ni. Ond er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau atgyweirio, bydd angen i ni gael mynediad er mwyn gwneud unrhyw archwiliadau a chwblhau gwaith atgyweirio angenrheidiol. Os felly, byddwn yn cysylltu â chi er mwyn rhoi rhybudd rhesymol a threfnu amser cyfleus. O dan y gyfraith, mae'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o o leiaf 24 awrcyn mynd mewn i'r eiddo ar adegau rhesymol o'r dydd. Un o amodau eich tenantiaeth yw eich bod yn rhoi mynediad i'ch eiddo pan fo angen.
- Sicrhau tystysgrif perfformiad ynni ar gyfer eich cartref - byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi effeithlonrwydd ynni ein cartrefi, y costau nodweddiadol ac yna argymhell ffyrdd o ostwng defnydd ynni er mwyn gwneud yr eiddo yn fwy effeithlon.
- Cynnal profion legionella, lle bo hynny'n berthnasol – byddwn yn lleihau'r risg o glefyd y llengfilwyr mewn pob math o systemau dŵr.
- Cynnal profion trydanol – byddwn yn gwirio bod offer/gosodiadau trydanol, weirio a'r cylchedau yn ddiogel.
- Cynnal arolygon asbestos – byddwn yn rheoli a deall data asbestos ac yn ei reoli'n effeithiol.
- Cynnal arolygon radon – byddwn yn cynnal arolygon radon ac yn deall data radon (lle bo hynny'n berthnasol) ac yn ei reoli'n effeithiol.
- Cyflawni gwaith cynnal a chadw statudol ar systemau chwistrellu a LOLER (rheoliadau gweithrediadau codi ac offer codi).
- Anelu i gadw ein cofnodion wedi'u diweddarau fel y gallwn ni gael pethau'n iawn y tro cyntaf.

BYDDWCH CHI, EIN TENANT, YN:

- Rhoi mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac ymatebol, atgyweiriadau, archwiliadau a phroffion, a darparu amgylchedd weithio diogel ar gyfer staff a chontractwyr i gwblhau'r gwaith.
- Gweithio gyda ni i gynnal a chadw eich cartref, a bod yn ystyriol yn yr hyn a wnewch er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles eich cymdogion.
- Diweddarau eich manylion cyswllt pan fo angen.
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw addasiadau y gallwn ni'u gwneud pan fyddwn yn cysylltu â chi neu'n ymweld â'ch cartref, e.e. anghenion anabled, crefyddol neu iaith, ayyb.
- Hysbysu staff Newydd am unrhyw bryderon neu risgiau iechyd a diogelwch yn amserol.
- Peidio â gwneud newidiadau sylweddol megis altradau ac addasiadau i'ch cartref heb gael caniatâd ysgrifenedig oddi wrth Newydd.
- Darllen a chydymffurfio â gwybodaeth iechyd a diogelwch ychwanegol sydd yn ac o gwmpas eich cartref neu'r ardaloedd cymunol.
- Cadw i fyny gyda'r newyddion diweddaraf gan Newydd sy'n effeithio arnoch chi neu ar iechyd, diogelwch a lles unrhyw denant arall.
- Ymroi i gefnogi'r gymdeithas yn y gwaith o fynd i'r afael â materion iechyd a lles, a gweithio i ffeindio datrysiadau effeithiol.
- Ymgysylltu â, a chymryd rhan mewn, ymgynghoriadau, a mynegi fy marn.
- Gadael i Newydd ystyried amrediad ehangach o bersbectifau gwahanol er mwyn hwyluso darpariaeth y gwasanaethau neu'r datrysiadau gorau.
- Cadw eich eiddo mewn cyflwr da.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y siarter hon, neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar: